
Hawdd ei Deall

disability wales
anabledd cymru

Citizen Directed
Co-operatives Cymru
Mentrau Cydweithredol
dan Arweiniad Dinasyddion

# Mentrau Cydweithredol dan Arweiniad Dinasyddion Cymru

**Taflen ydy hon am ein prosiect newydd o'r enw mentrau cydweithredol dan arweiniad dinasyddion Cymru.**



Mae hon yn fersiwn hawdd ei deall o'r daflen **'Mentrau Cydweithredol dan Arweiniad Dinasyddion Cymru: Gweithio gyda'n gilydd ar gyfer annibyniaeth'**

Mawrth 2015

# Cyflwyniad



Mae'r prosiect yma wedi cael ei greu i helpu pobl i gymryd rheolaeth dros eu gwasanaethau cymorth.



Os ydych yn cael gwasanaethau cymorth gan eich cyngor lleol, fe fydd y prosiect yma yn eich helpu i wneud penerfyniadau fel:




- pwy sydd yn rhoi help i chi
- ble a phryd rydych chi'n cael eich help
- pa help y gallwch ei gael.

Mae'r prosiect yn cael ei redeg gan Anabledd Cymru a Chanolfan Gydweithredol Cymru.

# Beth ydy menter gydweithredol dan arweiniad dinasyddion?



**Menter gydweithredol dan arweiniad dinasyddion** ydy lle mae pobl yn gweithio gyda'i gilydd i gael y cymorth maen nhw'n ei ddewis.



Mae **menter gydweithredol** yn union fel busnes sydd yn eiddo i'r aelodau ac yn cael ei redeg gan yr aelodau. Fe fydd pob aelod yn cael dweud sut mae'r fenter gydweithredol yn cael ei rhedeg.



Mae **dan arweiniad dinasyddion** yn meddwl beth sydd orau i'r bobl yn y fenter gydweithredol.



Mae'n meddwl darganfod beth sydd yn bwysig i chi, eich teulu a'r gymuned. Ac yna gweithio allan gyda'ch gilydd sut i gael hynny.

# Sut mae'n gweithio?




Os ydych eisiau bod yn aelod o'r fenter gydweithredol fe fydd angen i chi ofyn am **daliadau uniongyrchol**.

Mae **taliadau uniongyrchol** yn meddwl eich bod yn cael arian i ddewis a phrynu'r cymorth rydych chi ei angen yn lle bod y cyngor lleol yn rhoi gwasanaethau i chi.



Rydych chi'n dewis pa wasanaethau rydych chi eisiau ac fe fydd y fenter gydweithredol yn eich helpu i'w cael nhw ac i'w rheoli nhw.



Er enghraifft, rydych chi'n gallu talu am eich **cynorthwy-ydd personol** eich hun. Ond y fenter gydweithredol fydd y cyflogwr. Felly nhw fydd yn delio gyda'r gwaith papur anodd i chi.



**Cynorthwy-ydd personol** ydy rhywun sydd yn eich helpu i fyw'n annibynnol. Er enghraifft, rhoi cymorth a help i chi.

# Pam bod hyn yn beth da?



Chi sydd yn rheoli eich gwasanaethau eich hun.



Rydych chi'n gallu ymuno gydag aelodau eraill i wario eich arian. Rydych yn gallu defnyddio eich arian i wneud pethau yr ydych yn eu mwynhau. Rydych chi'n cael mwy o arian mewn grŵp mawr.



Fe fyddwch yn cael help i ddysgu sut i weithio gyda'ch cynorthwy-ydd personol. Rydych yn gallu cael help hefyd gan aelodau eraill.

# Dysgu rhagor



Rydych yn gallu dysgu mwy am fentrau cydweithredol dan arweiniad dinasyddion trwy:



- mynd i sioe deithiol – fe fydd yna lawer o ddigwyddiadau ar draws Cymru yn dweud wrth bobl am fentrau cymdeithasol dan arweiniad dinasyddion.



- mynd i weithdy hyfforddiant – mae hyn i bobl sydd eisiau dechrau eu menter gydweithredol eu hunain.

disability wales
anabledd cymru

- cysylltu gydag Anabledd Cymru – gallwch gysylltu gyda Rebecca Newsome unrhyw adeg i ddysgu rhagor. Hi sydd yn gwneud i'r prosiect weithio.



**E-bost:** Rebecca.newsome@disabilitywales.org



**Ffôn:** 029 2088 7325

**Ffôn Symudol:** 07786 658732




**Gwefan:** www.disabilitywales.org/cy/prosiectau/project-co-op-cymru-dan-gyfarwyddyd-dinasyddion/